

Beirniadaeth ar gyfer Cyfrol y Cyfansoddiadau

362 – Barddoniaeth Bl 7 - Deffro

Beirniad – Marc Lloyd Jones

1af -Eryr Aur – 362/17

2il -Uppa Banos – 362/36

3ydd – Heulwen – 362/27

Diolch i'r 43 ymgeisydd am eu cerddi diddorol ac amrywiol iawn. Roedd y testun ' Deffro' yn arwain y beirdd ifanc i ymdrin â sawl thema gwahanol. Daeth tair cerdd i'r brig ac yn y trydydd safle mae gwaith 'Heulwen'. Disgrifio byd natur a'r wiwer drwy'r tymhorau wna 'Heulwen', a hynny mewn ffordd syml, rhyddmig, disgrifiadol ac effeithiol. Yn ail oedd cerdd 'Uppa Banos' am ei neges amserol, wladgarol wrth i nifer o Gymry ddyheu am annibyniaeth a dilyn ôl troed Owain Glyndwr. Rwy'n arbennig o hoff o'r bennill olaf sy'n galw ar y Cymry i ddeffro a chodi eto yn wyneb gormes a gorthrwm " Bydd Owain gawr yn siwr o'n deffro!"

Rwy'n dyfarnu'r wobwr gyntaf i 'Eryr Aur' am gerdd ardderchog sydd yn ein rhybuddio bod angen i bob un ohonom ni ddeffro er mwyn achub y byd. Mae pob pennill yn dechrau gyda "Deffrwch bawb.." sydd yn ail adrodd y rhybudd ac â'r bardd ymlaen i ddisgrifio'r holl bethau mae dyn yn ei wneud sy'n llygru a difa'r amgylchfyd. Mae rhyddm a mydr y gerdd yn gweddu i'r dim a'r odl yn cael ei ddefnyddio i bwrsas pob tro i atgyfnerthu'r neges. Mae'r bardd yn newid patrwm yr odl yn y bennill olaf gan gynnwys dau gwpled er mwyn rhoi clo rhybuddiol "Mae'r cloc yn tician, mae'n rhaid i'r byd ddeffro!!"

Llongyfarchiadau gwresog i 'Eryr Aur' sy'n llawn haeddu'r wobwr gyntaf.